Taflen Ffeithiau ar Niwsans Sŵn

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch niwsans sŵn. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion ynghylch niwsans sŵn o adeiladau domestig neu fusnes yn ei ardal ac am gymryd mesurau gorfodi priodol lle mae'n cadarnhau bod niwsans statudol yn cael ei achosi. Fel arfer, gwneir hyn drwy Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor. Mae'n rhaid i'r Cyngor weithio o fewn y gyfraith, canllawiau'r llywodraeth ac o fewn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion am sut y deliodd y Cyngor â chwynion ynghylch niwsans sŵn a wnaed iddo. Gallwn ystyried a wnaeth y Cyngor unrhyw beth o'i le wrth ymchwilio i'ch cwyn ynghylch sŵn ac, os felly, a arweiniodd hyn at greu problemau ychwanegol ichi. Gallwn edrych ar:

- methu ymchwilio i gŵyn ynghylch niwsans sŵn sy'n parhau a sefydlu a oedd yna broblem sŵn.
- oedi afresymol yn ymchwilio i gŵyn ynghylch niwsans sŵn.
- methu cymryd camau gorfodi neu fesurau i ddatrys y broblem ar ôl i'r Cyngor gadarnhau bod problem niwsans sŵn statudol yn bodoli.
- methu egluro canlyniad yr ymchwiliad ichi.
- methu ystyried yr holl wybodaeth berthnasol a oedd ar gael neu ddod i'w benderfyniad ar sail gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu amherthnasol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yr Ombwdsmon yn gallu:

- ymchwilio i gwynion ynghylch niwsans sŵn (dim ond y Cyngor sy'n gallu ymchwilio i'r rhain).
- dod i benderfyniad ynghylch a ydyw'r sŵn yr ydych yn cwyno yn ei gylch yn niwsans o dan y gyfraith.
- mynd yn groes i benderfyniad y Cyngor ynghylch a ydyw'r sŵn yn niwsans o dan y gyfraith ac ynghylch y camau gorfodi a gymrodd.

Materion i gadw mewn cof

Os ydych yn dioddef o niwsans sŵn, rhaid ichi roi gwybod i'r Cyngor cyn gynted â phosibl gan roi manylion y sŵn a'r dyddiadau a'r amseroedd y digwyddodd. Ni all y Cyngor ymyrryd yn syth i atal y sŵn, mae angen iddo ymchwilio i sefydlu natur y broblem. Efallai y bydd yn gofyn ichi lenwi dyddiadur i gofnodi manylion y broblem fel rhan o'i ymchwiliad.

Gwybodaeth bellach

Efallai y bydd gan y Cyngor fwy o wybodaeth am sut y mae'n delio â chwynion sŵn a / neu bolisi gorfodi ysgrifenedig y gallwch ei ddarllen, ar ei wefan. Am gyngor ar wneud cwynion ynghylch niwsans sŵn, dylech gysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn uniongyrchol.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ